# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol – Fersiwn Ymgynghori



## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Astudiaethau Cymdeithasol arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

### Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
    - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
    - archwilio cysyniadau gan gynnwys cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso, moeseg a barn
    - datblygu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, ynghyd â chydnabod barn eraill
    - casglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
    - archwilio sut a pham y gall dehongliadau fod yn wahanol, a datblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a chynrychioliadau, a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth
    - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd yn newid yn eu hardal nhw ac mewn mannau eraill yng Nghymru, yn ogystal ag yn fyd-eang
    - meithrin eu hunaniaeth eu hunain ac ymwybyddiaeth o sut y gallan nhw, fel unigolion, siapio'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw
    - datblygu gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, a helpu i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn
    - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd dynol
    - datblygu dealltwriaeth feirniadol o sut mae cymdeithasau wedi cael eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain, yn ardal leol y dysgwr ei hun, yng Nghymru, a hefyd yn y byd yn ehangach
    - bod yn ddinasyddion a defnyddwyr gweithredol, gwybodus a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymunedau a chyfrannu atyn nhw, yn ogystal â gallu mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n wynebu'r dysgwyr, eu cymunedau, Cymru yn ogystal â'r byd ehangach
    - datblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a ffurfio barn
  - gallu gweithio'n fwy effeithiol gydag eraill, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
  - dangos eu bod yn gallu gweithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson
  - mireinio sgiliau disgyblaethol allweddol yn barhaus a datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymholi, megis llunio cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb a'r rhai sy'n ymwneud â chynrychioli a dehongli canlyniadau ymholiad
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd
  - dangos mwy o allu i ddylanwadu ar ddigwyddiadau drwy fod yn ddinasyddion gwybodus a chyfrifol.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Astudiaethau Cymdeithasol[3] drwy:
  - ddatblygu dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth
  - hybu dealltwriaeth gysyniadol o'r byd trwy ddysgu am bobl a'u gwerthoedd, mewn cyfnodau, lleoedd a sefyllfaoedd gwahanol
  - cynnig cyd-destunau cyfoethog i archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, a chyfundrefn cymdeithasol
  - hybu cyfranogiad gweithredol ac ymwneud â materion cymdeithasol trwy ymholi cymdeithasol, trafodaethau a gweithredu cymdeithasol
  - datblygu dealltwriaeth o sut mae systemau llywodraeth yng Nghymru yn gweithio gan ystyried eu heffaith ar fywydau pobl, a sut maen nhw'n cymharu â systemau eraill
  - archwilio cysyniadau llywodraethiant, hawliau, cyfartaledd, anghyfartaledd, ethnigrwydd, rhywedd a thlodi.

Bydd y cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn seiliedig hefyd ar y cysyniadau a ganlyn:

- awdurdod a llywodraethiant
- achos ac effaith
- newid a pharhad
- dinasyddiaeth
- cymuned
- amrywiaeth
- hunaniaeth a pherthyn
- rhyng-gysylltedd
- cyfiawnder a chydraddoldeb
- cyfrifoldeb
- hawliau
- gweithredu cymdeithasol.

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

## Diffinio Astudiaethau Cymdeithasol

Mae sawl ffordd wahanol o ddiffinio Astudiaethau Cymdeithasol yn bodoli. Gellir deall Astudiaethau Cymdeithasol fel pwnc sy'n cwmpasu ac yn cyfuno sawl disgyblaeth ond mae angen i'r TGAU newydd hwn fod yn bwnc unigryw gyda diffiniad clir. Bydd Astudiaethau Cymdeithasol yn ategu pynciau eraill sy'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. Ni fydd yn gorgyffwrdd ag agweddau arwyddocaol ar y pynciau hynny, gan weithredu fel profiad dysgu unigryw sy'n canolbwyntio ar faterion, gweithredoedd a chredoau cymdeithasol.

I allu diffinio Astudiaethau Cymdeithasol, cyfeiriwyd at y

- canllawiau Cwricwlwm i Gymru a nodwyd uchod
- yr adroddiad Penderfyniadau Cymwys ar gyfer y Dyfodol wnaeth nodi y byddai'r cymhwyster hwn yn rhoi'r 'cyfle iddynt nid yn unig ymgysylltu â digwyddiadau cyfredol a chwestiynau pwysig ein hoes, ond hefyd archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a threfniant cymdeithasol'
- y Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig
- ein Grwp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau (wedi'i ffurfio o ymarferwyr presennol mewn canolfannau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, Arweinydd Maes Consortiwm ar gyfer y Dyniaethau, arbenigwr ar asesu ac arweinwyr TAR).

Yn sgil hynny, mae Astudiaethau Cymdeithasol felly'n ymwneud â:

- deall yr amrywiol faterion cymdeithasol yn gymdeithas yr ydym yn byw ynddi
- gwerthfawrogi bod materion cymdeithasol yn gymhleth a bod modd eu hesbonio o sawl safbwynt
- deall bod cymdeithasau'n newid, yr hyn sy'n achosi'r newidiadau hynny a'r hyn y gallwn ni fel aelodau cymdeithas ei wneud i hybu newid drwy weithredu cymdeithasol.

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

| |
|---|
| **Uned 1: Cymdeithas a Materion Cymdeithasol**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>30% o’r cymhwyster |
| **Uned 2: Ymchwilio i Gymdeithas a Materion Cymdeithasol**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o’r cymhwyster<br>Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC |
| **Uned 3: Newid Cymdeithasol mewn Cymdeithas Gyfoes**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>30% o’r cymhwyster |
| **Uned 4: Cynllunio i Roi Newid Cymdeithasol ar Waith**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o’r cymhwyster<br>Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer y pedwar amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a thystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas. | 25% |
| **AA2** | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a thystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas, mewn cyd-destunau amrywiol. | 30% |
| **AA3** | Dadansoddi, gwerthuso neu lunio barn ar ffynonellau, materion cymdeithasol a dadleuon, gan ddefnyddio tystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas. | 25% |
| **AA4** | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau sy'n berthnasol i astudiaethau cymdeithasol. | 20% |

Cymhwyster unedol fydd hwn. Ac eithrio Uned 4, sy'n uned synoptig, nid yw trefn gyflwyno'r tair uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

## Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 - Cymdeithas a Materion Cymdeithasol

**Pwrpas yr uned hon yw archwilio:**

- Amrywiaeth o faterion cymdeithasol
- Amrywiaeth o safbwyntiau ar faterion cymdeithasol
- Syniadau hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, a natur amrywiol cymdeithas
- Sefydliadau cymdeithasol a llywodraethu ar wahanol lefelau yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae cymdeithasau yn gweithredu.

Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2027. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2027. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA1, wedi'i ddilyn gan AA2 a bydd y pwysoli isaf am AA3. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

## Uned 2 - Ymchwilio i Gymdeithas a Materion Cymdeithasol

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- Archwilio dulliau ar gyfer ymchwilio i gymdeithas a materion cymdeithasol a gwerthfawrogi dylanwad posibl y dulliau hyn ar ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol
- Cyflwyno amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i ddysgwyr sy'n ymwneud â chymdeithas a materion cymdeithasol, a'u galluogi i asesu hygrededd ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau
- Grymuso dysgwyr i allu defnyddio data am faterion cymdeithasol i ddod i gasgliadau.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2027. Bydd cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4 Oherwydd natur ymarferol yr ymchwiliad, mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4, wedi'i ddilyn gan AA2 ac AA3. Fel rhan o'r asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn ymchwilio i fater cymdeithasol a gaiff ei osod bob blwyddyn gan CBAC. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r asesiad di-arholiad. Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar y gwaith o ymchwilio i'r mater cymdeithasol fel y gall dysgwyr gael profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar y tasgau i'w hasesu.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Uned 3 - Newid Cymdeithasol mewn Cymdeithas Gyfoes

**Pwrpas yr uned hon yw archwilio:**
- Esboniadau o newid cymdeithasol
- Digwyddiadau sy'n arwain at newid cymdeithasol
- Gweithredwyr newid cymdeithasol
- Prosesau newid cymdeithasol
- Canlyniadau newid cymdeithasol.

Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2027. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3; caiff pob un ei bwysoli'n gyfartal. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

## Uned 4 – Cynllunio i Roi Newid Cymdeithasol ar Waith

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- Nodi materion cymdeithasol ac ymgysylltu â nhw
- Archwilio safbwyntiau amrywiol yn ymwneud â materion cymdeithasol
- Archwilio enghreifftiau a dulliau o weithredu cymdeithasol
- Deall sut i gynllunio ar gyfer gweithredu cymdeithasol
- Deall dulliau o ddadansoddi effeithiolrwydd gweithredu cymdeithasol.

Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2028. Bydd cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4 Oherwydd natur ymarferol yr ymchwiliad, mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4, wedi'i ddilyn gan AA2 ac AA3. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon. Bydd yr asesiad di-arholiad yn cynnwys asesiad yn seiliedig ar ddysgwyr yn nodi ac yn ymgysylltu â mater cymdeithasol sydd o ddiddordeb iddynt, gan ganiatáu i'r dysgwyr ddewis. Bydd dysgwyr yn cynllunio ar gyfer gweithredu cymdeithasol ond ni fydd disgwyl iddynt fynd ati i weithredu. Bydd y canolfannau'n marcio'r asesiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer cyflawni'r gwaith ymchwil fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar y tasgau i'w hasesu. Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 40% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad; rhaid i CBAC osod un asesiad di-arholiad, i'w farcio'n fewnol gan yr ysgol, a'i gymedroli gan CBAC. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r llall.
Mae hyn yn achosi rhai heriau o ran hydrinedd ac rydym yn ceisio lleihau'r rhain drwy ganiatáu i ganolfannau rannu'r llwyth gwaith a'r asesu. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo'n nodi bod y cymhwyster yn unedol, bwriadwn ddarparu'r asesiad di-arholiad yn nhymor yr haf ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn yr addysgu. Bydd gwneud hyn yn rhoi rhywfaint o ddewis i'r canolfannau o ran pa bryd i wneud yr asesiadau di-arholiad.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r amser asesu sydd wedi'i ddyrannu i'r ddau asesiad di-arholiad er mwyn ceisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu. Bydd y ddau asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau sy'n galw am ymholiad ymarferol (ymchwilio i fater cymdeithasol yn Uned 2 a chynllunio ar gyfer gweithredu dros newid cymdeithasol yn Uned 4). O ran yr hydrinedd byddem yn rhagweld bod yma lefel isel o reolaeth fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran y nodiadau y bydd modd eu defnyddio o'r ymholiad ymarferol wrth ymateb i'r tasgau asesu. Wrth gyflawni'r tasgau i'w hasesu, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn hanfodol cael lefel uchel o reolaeth er mwyn sicrhau dibynadwyedd a thegwch i ddysgwyr. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo bod dysgwyr yn gallu dangos ystod o sgiliau ymholi ac ymchwilio gan gynnwys y gallu i feddwl yn feirniadol a'r gallu i fyfyrio.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn cyflwyno dealltwriaeth eang o gymdeithas, gan ymdrin ag amrediad o destunau. Bydd dysgwyr yn gallu meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r ffordd mae cymdeithas yn gweithio ac yn gweithredu mewn cyd-destunau Cymreig, cenedlaethol a byd-eang. Bydd Uned 2 yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â deunydd ffynhonnell a data sy'n ymwneud â mater cymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi cyd-destun byd go iawn i ddysgwyr wrth iddynt ddysgu ac yn eu galluogi i archwilio mater o amrywiaeth o safbwyntiau. Bydd Uned 3 yn galluogi dysgwyr i archwilio'r ffactorau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â newid cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi'r ysgogiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a chyfreithiol dros newid yn ogystal â phwysau cymdeithasol a gweithredoedd grwpiau/unigolion ac achos ac effaith newid cymdeithasol. Bydd Uned 4 yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â mater cymdeithasol sy'n bwysig iddynt. Byddant yn gallu archwilio amrywiaeth o safbwyntiau yn ymwneud â'r mater cymdeithasol o'u dewis a llunio cynllun perthnasol sy'n ymgorffori strategaeth newid cymdeithasol y gellid ei defnyddio fel rhan o weithredu cymdeithasol arfaethedig.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig a gynigiwyd ar gyfer Unedau 2 a 4 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiadau di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned. Yn achos Uned 4, bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

O ran pwrpas a chynnwys Unedau 1 a 3, credwn mai asesiad drwy arholiad yw'r asesiad mwyaf dilys, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i wneud y mwyaf o'r dilysrwydd. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Wrth ystyried y ffordd y caiff yr Amcanion Asesu eu pwysoli, rydym yn cynnig dilyn yr un pwysoliadau â'r hyn a ddefnyddir yn TGAU Busnes a TGAU Daearyddiaeth, oherwydd y ffocws tebyg ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ar draws y pedair uned.
Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

DRAFFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# ATODIAD
# Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Astudiaethau Cymdeithasol Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

## Pwrpas

**1.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol**:

**1.1.** gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
**1.2.** 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
**1.3.** cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
**1.4.** galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
**1.5.** darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

## Nodau

**2.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol**:
**2.1.** ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag astudiaethau cymdeithasol
**2.2.** darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

**3.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol**:
**3.1.** datblygu dealltwriaeth o sut i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus a chyfrifol yng Nghymru a'r byd
**3.2.** datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd ac o bobl eraill a'u gwerthoedd
**3.3.** ymgysylltu â materion cymdeithasol cyfoes, ac archwilio hunaniaeth, hawliau a democratiaeth
**3.4.** archwilio materion cymdeithasol ac ystyried sut i gymryd rhan weithredol ac ymgysylltu â gweithredu cymdeithasol
**3.5.** gwerthfawrogi natur gymhleth, blwralaidd ac amrywiol cymdeithas drwy feithrin dealltwriaeth o hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, a sut mae'r materion hyn yn siapio pobl, lleoedd a chymuned
**3.6.** myfyrio ar ddylanwad llywodraethu ar bobl, ar leoedd, ac ar y gymuned
**3.7.** archwilio thema drawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

## Amcanion Asesu

**10.** Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o dermau, cysyniadau a thystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas. | 25% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o dermau, cysyniadau a thystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas, mewn cyd-destunau amrywiol. | 25% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso neu lunio barn** ar ffynonellau, materion cymdeithasol a dadleuon, gan ddefnyddio tystiolaeth sy'n berthnasol i astudio cymdeithas. | 25% |
| **AA4** | **Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau** yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau sy'n berthnasol i astudiaethau cymdeithasol. | 25% |

## Cynllun asesu

**11.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol** fod yn unedol.

**12.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol** ddangos yr ystod yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned.

**13.** Rhaid i **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

**13.1.** Rhaid cael dau asesiad arholiad sydd:

- **13.1.1.** yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu
- **13.1.2.** yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster
- **13.1.3.** rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu

**13.2.** Rhaid cael dau asesiad di-arholiad sydd:

- **13.2.1.** yn cyfrif am 40% o'r cymhwyster
- **13.2.2.** un asesiad di-arholiad wedi'i osod gan y corff dyfarnu, ei farcio'n fewnol gan y *Ganolfan*, a'i *Gymedroli'n* allanol gan y corff dyfarnu
- **13.2.3.** un asesiad di-arholiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol gan y corff dyfarnu

**14.** Rhaid gallu cyflwyno'r ddau asesiad di-arholiad yn ddigidol.

**15.** Rhaid i un uned arholiad fod ar gael yn haf 2026 ar gyfer y garfan gyntaf o *Ddysgwyr* sy'n cymryd y cymhwyster

**16.** Rhaid i'r corff dyfarnu bennu ei reolau ynghylch ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Astudiaethau Cymdeithasol** yn unol â'r *Amodau a Gofynion TGAU Cenedlaethol*.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.